cylchgrawn newyddion agoriadcyf

# insight

rhifyn yr haf
2010

**Helping people with disadvantages to achieve independence through employment**
**Rhoi help llaw i bobl dan anfantais ddod yn annibynnol drwy weithio**

# GWOBRWYON PHILLIP CASE 2010




*Mae'r llun yn dangos Tom yn cyflwyno tystysgrif i Sean Thomas yn ystod seremoni Gwobrwyon Phillip Case gafodd ei chynnal yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon yn ddiweddar.*

"Roedd Phillip Case yn un o sylfaenwyr Agoriad, ac yn ymddiriedolwr o'r cychwyn. Roedd o'n weithiwr diflino ar ran pobl dan anfantais, ac yn ffrind da yn ogystal. Roeddwn i'n ei chyfri'n fraint cael cydweithio hefo fo.

Yn anffodus iawn, fe gollwyd Phillip mewn damwain ddisymwth, ac mae'n hiraeth ar ei ôl yn fawr. O'r herwydd, rydyn ni'n cofio amdano bob blwyddyn wrth gyflwyno'r gwobrau hyn, sy'n dwyn ei enw.

Eleni, mae pawb yn Agoriad yn ymfalchïo wrth weld cymaint yn cymryd eu lle o fewn eu cymunedau. Mae'r tîm yn haeddu pob clod am ddarparu'r gofal a'r ymddiriedaeth sy'n datblygu hyder bobl dan anfantais er mwyn iddynt gael byw bywyd llawn. Mae'n diolch yn fawr i gymaint o fusnesau a sefydliadau yng Ngogledd Cymru sy'n cynnig cyfleoedd gwaith go iawn i bobl sy'n ei wir haeddu."

**Tom Jones, Cadeirydd**

## ERTHYGL FLAEN AGORIAD



**Dave Austin**
**Ymddiriedolwr Agoriad**

## Menter Gymdeithasol

*Cymryd y cyfle*

Yn ystod fy nghyfnod gydag Agoriad rydym wedi ymdrechu'n galed i ddatblygu prosiectau fyddai'n cynhyrchu incwm, er mwyn gallu symud ymlaen tuag at godi arian drwy weithgareddau sy'n creu elw. Gallem wedyn ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym i hyfforddi cleientiaid Agoriad a datblygu eu sgiliau.

• Parhad ar dudalen 2

agoriadcyf realising your potential gwireddu eich potensial

• parhad o dudalen 1

## Menter Gymdeithasol *Cymryd y cyfle*

Mae Mentrau Cymdeithasol yn ddull delfrydol o gyflawni'r uchelgais hwn. Rydym yn hynod ffodus o gael tri busnes ar hyn o bryd - Caffi Coed-y-Brenin, Llys Llewelyn a Dŵr Cerist. Mae'r tri wedi datblygu i wahanol raddau wrth i ni geisio'u hymestyn a chynyddu cyfraniad pob un tuag at ein hymdrechion dros ein cleientiaid, nid yn ariannol yn unig ond hefyd eu sgiliau a'u cyfleoedd gwaith.

Yn y gorffennol rydym wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth chwilio am leoliadau gwaith ar gyfer ein cleientiaid, ac mae'n rhaid i ni gydnabod y gefnogaeth ardderchog a gawn gan fusnesau Gogledd Cymru. Oherwydd bod gennym ein mentrau masnachol ein hunain erbyn hyn, gallwn ddatblygu'r cleientiaid dros gyfnod estynedig, a chael cyfle i greu trefniadau mwy parhaol. Gallent ennill profiad a sgiliau drwy weithio o fewn ein prosiectau ni, ac mae hynny'n golygu fod ganddynt well cyfraniad i'w wneud i gyflogwyr wrth chwilio am swyddi y tu allan i Agoriad. Mae mentrau cymdeithasol Agoriad hefyd yn ein galluogi i gynnig lleoliad gwaith i gleientiaid sydd ar gynlluniau hyfforddi eraill, a rhoi lle iddynt mewn rhaglen sydd wedi'i strwythuro'n ofalus, a lle gallent gael cefnogaeth i ddatblygu.

Mae gwaith tîm yn hanfodol ymhob agwedd o waith Agoriad, ac yn bwysig iddo ddal i lwyddo, o safbwynt y cleientiaid ac o safbwynt y sefydliad ei hunan. Gwerthfawrogir hyn gan ein staff, ein cleientiaid a'n cyfeillion mewn busnes. Beth am edrych yn fwy manwl ar y tair menter gymdeithasol sydd gennym:

**Caffi Coed-y-Brenin:** Mae'r Caffi ym Methesda, ac mae mewn bodolaeth ers chwarter canrif. Yn wreiddiol, sefydliad elusennol oedd y Caffi, ond daeth dan adain Agoriad dair blynedd yn ôl. Bryd hynny, roedd wedi'i esgeuluso, a bu'n rhaid i Agoriad wella'r adeilad a'i uwchraddio. Erbyn hyn, mae dau lawr y Caffi wedi'u hadfer, ac mae bellach yn cynnwys yr offer gorau. Mae oriau agor a gweinyddiad y caffi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn gallu cynnig mwy o ddewis o ran prydau, ac oriau estynedig. Mae'n cleientiaid sy'n gweithio yno ar hyn o bryd yn fodlon iawn ar y newid, ac mae'r gwelliannau i'r adeilad yn denu mwy o gwsmeriaid. Heblaw am waith arferol y caffi, mae'r gwasanaeth arlwyo allanol yn datblygu a phrysuro, a hefyd y cacennau ar gyfer achlysuron arbennig.

Yn y dyfodol agos, byddwn yn agor fel bwyty ar ddwy noson yr wythnos, er mwyn denu pobl leol, gan mai ychydig iawn o adnoddau o'r math yma sydd ar gael yn lleol.

**Tŷ Te Llys Llewelyn:** Ychydig flynyddoedd yn ôl cafodd Agoriad gyfle i gymryd rheolaeth o gaffi yn Aberffraw oedd yn methu gwneud elw ar y pryd. Roeddem yn awyddus i ystyried y cyfle, ac arweiniodd hyn at ein sefyllfa heddiw - fel daliwr les y safle a pherchennog y busnes. Fel Caffi Coed-y-Brenin, caffi yw'r busnes hwn hefyd, ond mae wedi'i leoli ar Ynys Môn ac yn rhan o safle treftadaeth. Mae'r caffi'n datblygu'n fusnes llwyddiannus. Unwaith eto, rydym yn ceisio datblygu digwyddiadau fin nos a gwasanaeth arlwyo allanol, ac mae'r rhain yn profi'n boblogaidd, fel y mae'r caffi i'r rhai sy'n digwydd taro arno.

**Dŵr Cerist:** Ym mis Ionawr 2009 y cychwynnodd ein menter ddiweddaraf, ac mae'r prosiect hwn yn bendant yn dipyn o her. Busnes potelu dŵr wedi'i leoli yn Ninas Mawddwy ydy Dŵr Cerist. Mae gennym drwydded i alldynnu 4 miliwn o litrau o ddŵr mwynol pur. Er bod y busnes wedi'i sefydlu rai blynyddoedd yn ôl, roedd hwn eto wedi'i esgeuluso, ac mae angen cryn dipyn o waith i'w wneud yn fusnes llwyddiannus.

Treuliwyd y flwyddyn gyntaf yn gosod y busnes ar dir cadarn, creu man gwaith effeithiol a datblygu nifer ein cwsmeriaid. Erbyn hyn rydym yn symud ymlaen i'r ail flwyddyn ac am godi'r busnes i'r lefel nesaf.

Ar hyn o bryd mae gennym 21 o gleientiaid yn gweithio yn y tri busnes uchod, ac fel sefydliadau lleol, mae'r tri yn cyfrannu i'w heconomi leol ac yn darparu gwasanaeth i'w cymunedau. Mae gweithio fel tîm yn rhan annatod o lwyddiant y mentrau hyn, ac mae'r gwahanol elfennau o waith Agoriad yn gweithio gyda'i gilydd o safbwynt datblygu'r cleientiaid a chreu cyfleoedd mewn busnes. Mae'r staff hefyd wedi dangos fod ganddynt y gallu i fod yn hyblyg wrth iddynt symud a gweithio o fewn y gwahanol fusnesau. Credaf ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran bod yn barod i weld cyfleoedd ac i arallgyfeirio drwy gymryd yr awenau i'n dwylo'n hunain.

Mae'n Mentrau Cymdeithasol yn cynnig pont i'r dyfodol i Agoriad, ac yn ffordd i ni sicrhau y byddwn yn gallu cyflawni'n amcanion craidd - rhoi cefnogaeth i bobl ddod yn rhan o'u cymuned drwy gynnig cyfle i ddatblygu a chael eu cyflogi. Mae llawer iawn o waith i'w wneud eto yn y maes yma, ac mewn mentrau eraill posib, ond rwy'n arbennig o falch o'r hyn mae Agoriad wedi'i gyflawni hyd yn hyn o ganlyniad i waith caled iawn, ac ymroddiad gan bawb.



# AGORIAD YN ALLWEDD I ANTHONY

Cychwynnodd Anthony ar raglen Llwybr at Waith Agoriad yn ystod Gorffennaf 2009 gan ei fod yn derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Cyn hynny, bu Anthony'n gweithio yn Siemens Healthcare ond gadawodd pan oedd ei anhwylder deubegwn (bipolar disorder) wedi gwaethygu.



*"Mae fy mywyd yn llawer mwy sefydlog yn 2010 nag o'r blaen. I Agoriad ac i Brian mae'r diolch am hynny." - Anthony Cope (ar y dde) a Rheolwr MBCC Brian Egan.*

Trefnodd Sarah Roberts, ei gynghorydd yn Agoriad, i'w gyfarfod bob mis er mwyn trafod dulliau o'i gael yn ôl i fyd gwaith, a pha gymorth oedd ar gael iddo. Trafododd y ddau'r gwahanol ddewisiadau, gan gynnwys y cyfarfodydd cyfrinachol. Un posibilrwydd oedd cael cyngor un i un gan Gynghorydd Galwedigaethol A4E, ac roedd cyngor gan ei feddyg teulu hefyd ar gael.

Penderfynodd Anthony ail-ddechrau gweithio mewn dull gwirfoddol drwy'r rhaglen Paratoi at Waith. Lluniodd Sarah ac Anthony restr o gyflogwyr oedd yn cynnig y math o waith fyddai'n gwneud defnydd o'i sgiliau biofeddygol, ac un o'r rheiny oedd MBCC ym Mentec, Bangor. Bu Brian Egan o MBCC yn gefnogol iawn , ac roedd yn sylweddoli fod gan Anthony botensial, ac y byddai angen adeiladu ar ei allu i ddyfalbarhau o fewn y gweithle.

O'r dechrau un, roedd Brian yn pwysleisio y dylai Anthony ystyried ei hunan yn rhan o weithlu MBCC, ac y byddai'r sgiliau sydd ganddo'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Dechreuodd Anthony weithio ychydig ddyddiau'n unig ar y cychwyn, ond adeiladodd ar hynny, ac erbyn Nadolig 2009, cafodd gynnig swydd gyflogedig gan MBCC. Mae Anthony'n parhau i gael cefnogaeth gan Agoriad drwy gyfrwng y rhaglen Cam at Waith sy'n cynnig nawdd a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd. Erbyn hyn, mae'n edrych yn debygol fod Anthony o fewn ychydig fisoedd i allu gwneud heb unrhyw gefnogaeth yn ei waith.

Meddai Anthony "Mae'r gefnogaeth rwy'n ei gael gan Agoriad wedi bod yn hanfodol er mwyn f'annog i ddychwelyd i weithio, yn dilyn cyfnod anodd iawn yn fy mywyd. Mae'r rhaglen ar ei hyd wedi fy helpu i sefyll ar fy nhraed fy hun, rhoi help llaw imi wrth chwilio am waith, a'm cefnogi wrth fy ngwaith. Dangosodd y rhaglen hon imi fod bywyd ar gael yn dilyn diagnosis, ac er bod bywyd wedi newid, does dim rhaid iddo fo fod er gwaeth. Oherwydd yr help hwnnw, cefais afael ar fy mywyd unwaith eto, a chymorth i gynnwys fy nghyflwr o'i fewn. Mae fy mywyd bellach yn llawer mwy sefydlog yn 2010 nag y bu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. I Agoriad a Brian mae'r diolch am hynny."

Ategodd Brian hyn. "Mae Anthony wedi dangos cryfder a dyfalbarhad wrth ddod i arfer â'i gyflwr a'i reoli, ac mae wedi dangos ei fod yn gallu cystadlu ar lwyfan gwaith yn union fel unrhyw weithiwr arall". Ymhyfrydodd Sarah yn y ffaith fod y tair rhaglen gan Agoriad wedi golygu fod Anthony bellach mewn gwaith llawn amser gyda chyflogwr sy'n credu yn ei allu, ac yn gallu gwerthfawrogi fod ganddo sgiliau arbenigol sy'n bosib eu cymhwyso ar gyfer y gwaith.

## DIWRNOD AGORED • DYDD GWENER 25 MEHEFIN 2010 • 12 - 3pm

dŵr mwynol naturiol
CERIST NATURAL MINERAL WATER
DŴR CERIST CYF

**Dewch i weld sut mae potelu'r dŵr mwynol pur o'r ffynnon yn Llawr Cae, Dinas Mawddwy, a phrofi dŵr ardderchog Eryri.**

**Mae croeso i bawb, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld!**

Cyfarwyddiadau: Dilynwch yr A470 i'r de o Ddolgellau am 7 milltir (Y Trallwng fydd ar yr arwyddion). Wedi mynd dros Fwlch yr Oerddrws, mae'r ffordd yn gwastadhau ar waelod y rhiw a bydd Dŵr Cerist ar yr ochr dde tua 100metr o'r ffordd. Ymhellach ymlaen ar y ffordd fawr dewch at encilfa a chiosg ar y chwith.

Mae pentref Dinas Mawddwy tua thair milltir i'r de o Dŵr Cerist.

Os gwelwch yn dda, peidiwch â dibynnu ar y 'Sat Nav' i ddod o hyd i ni!

# Gwobrwyon Philip Case 2010

## A gyflwynwyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon

## CCI LEGAL, PENRHYNDEUDRAETH

*Cyflwynwyd y wobr i Elaine Orr gan Mick Barlow, Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Agoriad.*

Bu CCI LEGAL PENRHYNDEUDRAETH yn gyflogwyr ardderchog o ran cynnig cyfle am brofiad gwaith i gleientiaid Agoriad. Ar y dechrau mae'r cwmni'n cynnig 30 diwrnod o brofiad gweinyddol i gleientiaid drwy'r rhaglen Paratoi at Waith, ac mae hyn yn rhoi profiad o bob math o waith swyddfa iddyn nhw. Yn ôl Gwenan Chartres, Swyddog Cyflogaeth Agoriad: *"Mae CCI Legal yn gefnogol iawn, ac yn rhoi amser i gleientiaid weld sut mae'r cwmni'n gweithio. Mae'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig yn arbennig o dda; maen nhw'n cael gweithio mewn sefyllfa sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ymlacio ac sy'n deall eu hanghenion i'r dim."*



Ar hyn o bryd, mae Llion Jones a Philip Power yn cael eu cyflogi gan CCI drwy gyfrwng cynllun Agoriad Cam at Waith. Mae'r ddau'n gwneud gwaith gweinyddol ac yn cael eu hystyried yn rhan werthfawr o'r tîm gan y rheolwyr ac aelodau eraill y staff. Drwy gydol eu cyfnod gyda'r cwmni, mae eu cydweithwyr wedi eu mentora, ac mae hyn wedi caniatáu iddynt setlo'n gyflym, ac i wneud eu gwaith yn effeithiol.

## SOMERFIELD, CAER

*Brian Blythin yn derbyn y Wobr gan Brace Griffiths.*



Cafodd Gareth Morris gyfle i dreulio 30 diwrnod ar brofiad gwaith yn siop SOMERFIELD CAER drwy gyfrwng y rhaglen Paratoi at Waith. Bu'r Cwmni'n barod hyd yn oed i ddarparu person i weithio wrth ochr Gareth ar eu cost eu hunain, fel bod Gareth yn dod i ddeall a dysgu beth oedd ei ddyletswyddau. Bu hyn yn help i Gareth ennill hyder a hunan-barch. Ar ddiwedd y cyfnod o brofiad gwaith, cynigiodd y cwmni waith cyflogedig i Gareth gyda chefnogaeth y rhaglen Cam at Waith. Mae'r gefnogaeth gyson sy'n cael ei gynnig gan yr archfarchnad wedi galluogi Gareth i ddatblygu a gwella o fewn y gwaith. Mae'n hapus iawn o fod wedi cael cymaint o groeso gan y rheolwyr a gweddill y staff, ac mae'n gyfforddus fel rhan o'r tîm yno.

Mae'r Rheolwr, Barry Blythin, wedi datgan ei fod yn barod i gynnig cyfleoedd tebyg i gleientiaid eraill sydd gan Agoriad. Bu'n barod hyd yn oed i gysylltu â rheolwyr siopau eraill Somerfield gan eu hannog i roi cyfle tebyg i gleientiaid eraill Agoriad.



## FFORWM ANABLEDD SIR DDINBYCH

*Cyflwynwyd gwobr i Marie Dawson gan Brace Griffiths sy'n Ymddiriedolwr ac yn Gyfarwyddwr Agoriad.*



MAE FFORWM ANABLEDD SIR DDINBYCH wedi rhoi hwb i lawer iawn o gleientiaid Agoriad. Fel arfer, byddent yn cael cynnig cyfnod o 30 diwrnod o brofiad gwaith drwy'r cynllun Paratoi at Waith. Erbyn hyn, mae tri o gyn-gleientiaid Agoriad - Katie Holmes, Rosalind Price a John Hadrill - bellach yn cael eu cyflogi gan y Fforwm drwy gyfrwng y rhaglen Cam at Waith, ac mae llawer o gleientiaid wedi symud ymlaen i gael eu cyflogi gan gwmnïau eraill. Mae tîm y Fforwm, a'u Rheolwr Marie Dyson, yn ardderchog am alluogi pobl a chanddyn nhw anableddau i gyflawni eu potensial.

Adeiladodd Gareth Roberts, Swyddog Cyflogaeth Agoriad, berthynas weithio dda rhwng Agoriad a'r Fforwm. Meddai Gareth: *"Ers iddyn nhw fod yn gweithio yn y Fforwm, mae'r gweddnewidiad sydd i'w gweld yn rhai o'r cleientiaid yn anhygoel. Mae eu gwybodaeth a'u sgiliau wedi gwella'n sylweddol. Maen nhw wedi dysgu arferion buddiol yn y gwaith, ac mae eu hunan-barch a'u hyder wedi gwella hefyd. Yn ogystal, mae'r cyfan wedi gwneud ffrindiau newydd."*

## GWESTY'R ROYAL VICTORIA, LLANBERIS

*Cyflwynwyd gwobr i Anne Owen gan Gill Richards sy'n Ymddiriedolwr ac yn Gyfarwyddwr Agoriad.*



Cyflogir ROBIN SUTHERLAND yng ngwesty'r Royal Victoria, ac mae'n gweithio yno fel gweithiwr cegin cynorthwyol. Mae gan Robin anabledd dysgu ac o'r herwydd mae'n ei chael hi'n anodd cofio gwybodaeth; mae hefyd yn cael trafferth wrth gyfathrebu gyda phobl. Byddech chi'n meddwl y byddai hyn yn achosi problemau mewn cegin brysur, ond mae Robin yn cael cefnogaeth neilltuol gan Peter Hazlehurst, y Prif Gogydd a'i staff. Maen nhw'n sicrhau fod Robin yn llwyddo i wneud ei waith yn effeithiol, ac mae'n cael ei werthfawrogi fel aelod llawn o'r tîm yno. Caiff unrhyw gyfarwyddiadau eu cyfleu i Robin mewn ffordd sy'n gyfforddus iddo, fel nad yw'n cael trafferth i'w deall.

## I J HUGHES & G HUGHES, TŶ MAWR, LLANBEULAN

*Cyflwynwyd gwobr i Mrs Hughes gan Gill Richards.*



Contractwyr amaethyddol ydy I J HUGHES a G HUGHES sydd hefyd yn gweithio yn y diwydiant ailgylchu. Mae elfen ailgylchu'r busnes ar hyn o bryd yn cyflogi Dylan Roberts a Dafydd Davies drwy gyfrwng rhaglen Cam at Waith Agoriad. Yn ôl Bethan Hughes, Swyddog Cyflogaeth Agoriad: *"Mae John Hughes, un o berchnogion y cwmni, yn rhoi cefnogaeth gref i Dylan a Dafydd; mae'n amyneddgar iawn ac mae wedi rhoi o'i amser i'w hyfforddi i gyrraedd safon dderbyniol. Cymerodd hyn gryn dipyn o amser y cwmni, gan fod Dylan yn arbennig, yn cael trafferth i gofio gwybodaeth".* Ar gost y cwmni, mynychodd Dylan a Dafydd nifer o gyrsiau hyfforddi dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn datblygu eu gwybodaeth o ailgylchu.

Mae'n glod i John Hughes ei fod wedi dangos cymaint o amynedd a dealltwriaeth o anghenion Dylan, a'i fod wedi bod yn barod i gynnig gwaith iddo pan gafodd Dafydd ei gyfeirio at Agoriad.

## BERWYN BAKERY

*Derbyniodd Geraint Jones (ar y chwith) y wobr ar ran Berwyn Bakery, gyda Garry Parry ar y dde.*



Mae BERWYN BAKERY AR HYN O BRYD YN CYFLOGI Andrew Edwards a Garry Parry gyda chefnogaeth Cam at Waith. Mae Andrew, sy'n gyflogedig ers 2002, yn hollol fyddar. Cafodd Andrew gefnogaeth eithriadol o dda gan y cwmni drwy gydol ei gyfnod yno, nid yn unig yn ei warchod fel person cyflogedig, ond hefyd ar lefel bersonol. Cafodd gefnogaeth wirioneddol gan aelodau'r staff, sy'n sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys mewn unrhyw weithgareddau cymdeithasol sy'n cael eu trefnu y tu hwnt i oriau gwaith.

Mae'r Cwmni'n un sy'n ofalus iawn o'r teulu, ac fe welir hynny ar waith yn achos Garry Parry. Cafodd Garry gyfle am waith gyda'r busnes er nad oedd ganddo unrhyw brofiad o'r math o waith sy'n cael ei wneud yn y becws. Darparodd y cwmni hyfforddiant dwys i Garry er mwyn iddo ddod i arfer gyda'i ddyletswyddau' n gyflym, a'i fentora. Mae gan Garry deulu ifanc, ac mae'r cwmni wedi gofalu ei fod yn cael cymorth gyda'i gyfrifoldebau fel rhiant drwy drefnu oriau gwaith iddo i gyd-fynd ag oriau ysgol. Mae cymryd gofal eithriadol o'u staff yn nodweddiadol o'r cwmni hwn.

Dywedodd Gwenan Charters, Swyddog Cyflogaeth Agoriad: *"Rwy'n cael croeso mawr gan y staff bob tro y byddaf yn mynd i fesur cynnydd Andrew a Garry. Mae'n bleser cael cyfle i gydweithio hefo nhw."*

## HY-MARK LTD, WRECSAM

*Dave Austin yn cyflwyno gwobr i Valarie Digby a Jack Yates. Fe welir Phillip yng nghanol y llun.*

Cyn iddo gael damwain car ym mis Tachwedd 2004, roedd PHILLIP GILPIN yn cael ei gyflogi fel gweithiwr prosesau llawn amser yn Hy-Mark, Wrecsam.

Dim ond mis cyn y ddamwain y dechreuodd weithio yno, ond mae'r gofal a'r gefnogaeth gafodd Phillip wrth wella yn glod mawr i'r cwmni. Yn ystod cyfnod o bum mlynedd - y cyfnod cyn ei ddamwain hyd at y diwrnod pan ddychwelodd i'r gwaith – cadwodd Jean Hughes o'r adran Adnoddau Dynol mewn cysylltiad clos â Phillip ar ran y cwmni. Rhoddodd help llaw iddo gydag unrhyw broblemau budd-daliadau, gan ymgynghori gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, a'i gefnogi a'i fentora drwy gyfnod ei adferiad.



Cafodd y ddamwain effaith ar gof Phillip, and nid yw'n gallu defnyddio un o'i freichiau. Er hynny, sicrhaodd y cwmni y byddai swydd yn aros am Phillip pan fyddai'n ddigon cryf i ddychwelyd i weithio.

Daeth yn amlwg i Hy-Mark na fyddai'n gallu mynd yn ôl at ei waith blaenorol, ac felly crëwyd swydd iddo fel cynorthwyydd ansawdd - swydd sy'n cael ei chefnogi gan raglen Cam at Waith Agoriad. Cafodd Phillip gefnogaeth eithriadol gan Hy-Mark dros gyfnod estynedig, ac mae'n llwyr haeddu derbyn Gwobr Phillip Case o'r herwydd.



## Fairhaven Christian Hotel, Llandudno

*Cyflwynwyd y wobr i Mr a Mrs Hammond gan Dave Austin, sy'n Ymddiriedolwr ac yn Gyfarwyddwr Agoriad. Yn y llun, Melanie sydd yn y canol.*

Bu MELANIE SHEARD yn gwneud gwaith cadw tŷ yng ngwesty Fairhaven Christian drwy gymorth Cam at Waith.

Drwy'r cyfnod hwn mae Melanie wedi cyfrannu'n helaeth at rediad llyfn y gwesty, ac mae'n gwneud ei dyletswyddau glanhau a gweini'n effeithiol.

Cafodd gefnogaeth y cyflogwyr i ddatblygu o fewn y swydd. Mynychodd ddosbarth coginio mewn coleg lleol, ac mae wedi pasio NVQ mewn gwaith cadw tŷ.



Hefyd, mae Paula Hammond sy'n gydberchennog y gwesty, wedi rhoi cyngor ariannol i Melanie, a'i helpu i gael morgais fel bod modd iddi brynu ei chartref ei hun.

## SIOP PEACOCKS, CAERNARFON

Cyfeiriwyd RICHARD BAXTER at Agoriad yn wreiddiol drwy'r rhaglen Paratoi at Waith. Mae tua 18 mlynedd ers pan weithiodd Richard ddiwethaf, pan fynychodd gynllun hyfforddi ieuenctid. Llwyddodd Jennifer Isaac, Swyddog Cyflogaeth Agoriad, i sicrhau cyfnod o 30 diwrnod o brofiad gwaith i Richard yn siop Peacocks, Caernarfon.

Dywedodd Sharon Richardson (rheolwr Peacocks): *"Gweithiodd Richard yn arbennig o galed yn ystod ei leoliad, gan gyd-dynnu gyda gweddill y staff, a chyflawni'r dyletswyddau'n dda iawn".*

Cynigiwyd gwaith yn Peacocks i Richard drwy gyfrwng y rhaglen Cam at Waith. Mae hyn yn gam hynod ymlaen i Richard, o gofio iddo fod yn ddi-waith am ddeunaw mlynedd. Mae'n gweithio mewn sefyllfa lle mae'n gyfforddus, ac mae'n cael cefnogaeth ardderchog gan y rheolwyr, staff llawr y siop a'r gyrwyr. Mae'n hapus iawn yn gweithio yno, ac yn dysgu sgiliau newydd yn barhaus.

*Mae Siop Peacocks Caernarfon yn enillydd haeddiannol iawn o wobr Phillip Case.*

**Gwobrwyon Phillip Case 2010**
**A gyflwynwyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon**



**Yn ystod y seremoni wobrwyo, cyflwynodd Tom Jones, Cadeirydd Agoriad, dystysgrifau Cymorth Cyntaf ac Arlwyo'r Coleg Agored i aelodau o dimau Agoriad yn Dŵr Cerist a Chaffi Coed-y-Brenin.**



*Tom Jones yn cyflwyno tystysgrif i Michele Morgan.*



*Michelle Morgan, Phillip Breen, Hannah Morris, Christopher Jones, Bethan Jones, Sean Thomas, Linda White ac Edwin Williams - da iawn chi!*



*Sue Kent (gwiriwr allanol Gogledd a Chanolbarth Cymru) yn cyflwyno tystysgrifau City & Guilds am lythrennedd a rhifedd i oedolion, a thystysgrifau 'Workright' Asdan. Mae'r llun yn dangos Sue wrthi'n cyflwyno tystysgrif i Mark Rosstron.*



*Rhes gefn: Mark Rosstron, Jamie Humphreys, Sue Kent, Siân Fflur Jones Rhes flaen: Sabrina Mullins, Bethan Jones, Aaron Fleming, Sarah Haf Jones.*

# CYDWEITHIO

Roeddem yn hynod falch o gyflwyno Gwobr Phillip Case i'r Fforwm eleni am y gwaith gwych sy'n cael ei wneud yno, a'r ffordd y mae hynny'n priodi gyda'n gwaith ni yma yn Agoriad. Yma fe welwch eiriau o gefnogaeth gan Rosalind a Katie.



Mae'r llun yn dangos Rosalind Price (ar y chwith) a Katie Holmes yn derbyn siec gan Wasanaeth Tân Rhyl drwy'r Maer, Mr Glyn Pickering, ar ran Fforwm Anabledd Sir Ddinbych.

"Hoffwn gyflwyno fy hunan. Fy enw i ydy Rosalind Price and rwy'n wraig tŷ a mam i bedwar o blant sydd bellach wedi tyfu i fyny.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf rwyf wedi dilyn chwech o gyrsiau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy mewn gweinyddiaeth a chyfrifon. Galluogodd hyn fi i fynd at Fforwm Anabledd Sir Ddinbych am wythnos o brofiad gwaith.

Pan benderfynais ddychwelyd i weithio, roeddwn i'n cael rywfaint o drafferth gan fod fy iechyd yn dioddef ar y pryd. Es i gysylltiad â Chanolfan Byd Gwaith, ac roedden nhw'n barod iawn i helpu. Cefais gyfarfod Angela Roberts, Cynghorydd Gwaith i'r Anabl, ac fe gyfeiriodd hithau fi at Agoriad. Drwy Agoriad, cefais fy nghyflwyno i Marie Dyson yn y Fforwm, ac yn fuan wedyn, cefais fynd yno ar leoliad am gyfnod o 30 diwrnod.

Gofynnodd Gareth Roberts, y Swyddog Cyflogaeth, i Marie a fyddai gwaith ar gael yn y Fforwm yn y dyfodol. Roedd hi'n hapus iawn gyda'r profiad gwaith a wnes yno. Cefais gynnig swydd Swyddog Gwybodaeth am gyfnod o flwyddyn, ac mae hwnnw wedi'i ymestyn am flwyddyn arall dan deitl newydd - Cydlynydd Hyfforddiant.

Bûm wrth fy modd yn gweithio gyda'r staff a'r gwirfoddolwyr yn y Fforwm. Ers hynny, rwyf wedi gwneud cwrs cymorth cyntaf gyda'r Groes Goch, a thri o gyrsiau hyfforddi gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych."

**Rosalind Price**

"Fy enw i ydy Katie ac rwy'n ugain oed. Pan oeddwn i'n 18 ro'n i'n teimlo awydd i ddechrau gweithio, ac felly fe es i i'r Ganolfan Waith leol, ac fe ges i gwrdd ag Angela Roberts, y swyddog anabledd yng Nghanolfan Waith Connah's Quay. Pan ddywedais i wrth Angela fod gen i awydd chwilio am waith, fe ddywedodd y byddai'n rhoi fi mewn cysylltiad gydag Agoriad Cyf ym Mangor – sefydliad sy'n helpu pobl gydag anableddau i ddechrau gweithio.

Ychydig ddyddiau wedyn, fe gwrddais i â Gareth Roberts, Swyddog Cyflogaeth, ac fe eglurodd fod cwrs 30 diwrnod ar gael o'r enw Paratoi at Waith. Ar ddiwedd hwnnw, os oedd cyfle am waith cyflogedig sy'n cael ei alw'n Cam at Waith, byddai Agoriad yn talu cyfran o'r cyflog. Holodd Gareth pa fath o waith fyddai gen i ddiddordeb ynddo fo, ac fe ddywedais innau y byddwn i'n hoffi gweithio gyda phlant. Trefnodd Gareth brofiad gwaith imi mewn meithrinfa er mwyn cychwyn y Paratoi at Waith, ond ar ôl ychydig, penderfynais nad oeddwn i am weithio efo plant wedi'r cyfan. Soniais i wrth Gareth y byddwn i'n hoffi rhoi tro ar waith swyddfa.

Trefnodd Gareth gyfnod Paratoi at Waith gyda Fforwm Anabledd Sir Ddinbych, ac mewn ychydig wythnosau, ro'n i'n teimlo'n gyfforddus iawn, a'n hyder yn gwella. Tua diwedd y Paratoi at Waith, cefais gynnig cytundeb Cam at Waith am gyfnod o 12 mis.

Dwi wrth fy modd yn gweithio yma, ac rwyf wedi ennill llawer o hyder gyda phob math o waith swyddfa. Erbyn hyn rwy'n gorffen fy nghwrs Lefel 1 mewn Gweinyddiaeth Busnes ac yn gweithio yma'r un pryd."

**Katie Holmes**



# CYFRIFIADURON A'R WE
# FFRIND NEU ELYN?



Wyddoch chi am rywun sy'n dychryn wrth feddwl am orfod defnyddio cyfrifiadur? Ydych chi'n methu cael y gorau o'r rhyngrwyd?

Gallwn ni wneud eich bywyd yn llawer haws gyda'n cwrs defnyddiol a chyfeillgar. Mae yma gyfle i ennill Tystysgrif City & Guilds mewn 'Start IT', sef cymhwyster lefel mynediad. Byddai'n addas ar gyfer unigolion sy'n cychwyn dysgu a chleientiaid heb brofiad blaenorol o gyfrifiaduron. Mae'r cwrs yn helpu pobl ddod yn hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur, ac yn egluro'r prif bethau sy'n bosib eu gwneud arnynt. Hefyd, cynigir cyflwyniad i galedwedd cyfrifiadurol, pecynnau meddalwedd, ac mae'n sail ardderchog ar gyfer datblygu a gwella sgiliau cyfrifiadurol.

Mae staff Agoriad yn brofiadol, cyfeillgar ac agos atoch chi. Cedwir maint y dosbarth cyn lleied â phosib er mwyn sicrhau fod pawb yn cael y gorau o'r cwrs. Mewn awyrgylch hapus fel hyn, y bwriad ydy cynyddu gwybodaeth y cleientiaid am gyfrifiaduron, a hefyd gwella'u hyder wrth eu defnyddio, a rhoi sail iddynt ar gyfer ychwanegu at eu cymwysterau yn nes ymlaen os mai dyna'u dewis.

Ar hyn o bryd, mae'r cwrs yn cael ei gynnig ar safleoedd Bangor, Pwllheli a Dolgellau. Cewch ragor o wybodaeth gan Robyn drwy ffonio 01248 361392 neu e-bostio robyn@agoriad.org.uk

## Dyma rai sylwadau:

*"Roeddwn i'n ofnus iawn, ond roedd yr athro'n gwneud imi deimlo'n gyfforddus yn syth"*

*"Wedi mwynhau'n ofnadwy"*

*"Pam oedd gen i gymaint o ofn?"*

*"Doedd gen i ddim syniad sut i droi cyfrifiadur ymlaen, ond mae gen i lawer mwy o hyder erbyn hyn"*




Dŵr mwynol naturiol bur ydy Cerist o dir tywysogion chwedlonol Cymru... mynyddoedd urddasol Eryri.

Mae tarddiad Cerist yn y mynyddoedd hyn, fu'n ddigyfnewid dros filoedd o flynyddoedd.

O FFYNHONNAU PARC CENEDLAETHOL ERYRI

dŵr mwynol naturiol
CERIST NATURAL MINERAL WATER
DŴR CERIST CYF

mwy o wybodaeth ar
www.dwrcerist.com

agoriadcyf
realising your potential
gwireddu eich potensial

Mae cymaint i'w weld ar ein gwefan

Cymerwch olwg ar yr holl gyrsiau sydd ar gael, a gwahanol ddulliau y gallem eich helpu

www.agoriad.org.uk

www.agoriad.org.uk

# WYNEBAU NEWYDD I'N CROESAWU YNG NGHAFFI ABERFFRAW

Mae Linda Austin a'i gweithwyr yn falch o fod wedi penodi dau aelod staff newydd yn Nhŷ Te Llys Llewelyn - Bronwen Owen a Siân Parry. Edrycha'r tîm ymlaen at gael haf prysur iawn yno, gan fod llawer o gerddwyr yn galw i mewn am gynhaliaeth wrth ddychwelyd o gerdded rhan o'r llwybr cylch enwog.

Daeth Llys Llewelyn yn lleoliad rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd Clwb Tîm Pêl Droed Aberffraw, ac ar gyfer partïon sy'n cael eu cynnal gan y Clwb. Cyrhaeddodd tîm Aberffraw rownd derfynol Cwpan y Gynghrair yn erbyn Tre Caernarfon, gafodd ei chwarae ar 16 Mai 2010, sef Adran Un Cynghrair Gwynedd ac Ynys Môn.

Heblaw am gynnig eu dewis eang o brydau i ymwelwyr ag Aberffraw, mae'r Tŷ Te yn paratoi prydau bwffe'n rheolaidd ar gyfer Premier First Aid (sydd ar safle Trac Môn, Tŷ Croes). Maent hefyd yn arlwyo ar gyfer ffeiriau Diogelwch yn y Cartref ar ran yr heddlu a'r gwasanaeth tân ar wahanol safleoedd ar Ynys Môn. Ar ben hyn i gyd, mae gwerthiant eu cacennau dathlu wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar.

Cwblhaodd Linda gwrs Trwydded Bersonol, sy'n caniatáu iddi werthu alcohol ar y safle, ac mae hefyd wedi derbyn tystysgrif iechyd a diogelwch gan IOSH - Institutional Occupation Safety and Health.

*Da iawn bawb ohonoch!*




*Siân Parry (ar y chwith), Linda a Bronwen Owen yn Llys Llewelyn.*



# SIÔN AR I FYNY

Daeth Siôn Griffiths o Fynytho i gysylltiad ag Agoriad gyntaf pan oedd yn rhan o grŵp Adeiladu Sgiliau Dwyfor, ac mae'n braf gweld ei fod wedi datblygu ymhellach. Erbyn hyn, mae'n cael ei gyflogi gan y Wynnstay Group yn eu siop ym Mhenygroeslon dan y cynllun Cam at Waith.

Cafodd Siôn ei brofiad cyntaf o'r siop pan aeth yno ar brofiad gwaith pan oedd ym mherchnogaeth Amaethwyr Eifionydd. Bu'r profiad hwnnw'n llwyddiant, a dysgodd Siôn nifer o sgiliau yr oedd eu hangen yn y gwaith. Gofynnodd y Cwmni a fyddai'n bosib i Siôn ddilyn cwrs i ddysgu gweithio wagen fforch godi gan y byddai hynny'n gwella'i siawns o gael ei gyflogi yn y dyfodol gyda chefnogaeth y cynllun Cam at Waith.

Cymerodd Agoriad sylw o'r cais yma a chael help gan Wasanaethau Hyfforddi Myrick i sicrhau fod Siôn yn ennill y cymhwyster. Cafodd wedyn gynnig swydd yno dan y rhaglen Cam at Waith.

Yna fe gymerwyd Amaethwyr Eifionydd drosodd gan Grŵp Wynnstay. Chafodd hyn ddim llawer o effaith ar waith dyddiol Siôn hyd yma, ond gobeithia Wynnstay ddatblygu swyddogaeth Siôn yn y dyfodol. Y bwriad ydy cynyddu'r cyfrifoldebau sydd ganddo, a datblygu amrywiaeth y gwaith mae'n ei wneud yno.

Drwy gyfrwng y cynllun Cam at Waith, bydd Agoriad yn gallu cymryd rhan yn natblygiad galwedigaethol Siôn mewn gwaith lle mae'n mwynhau ei ddyletswyddau. Mae hefyd yn hapus yng nghwmni cwsmeriaid a chydweithwyr ac yn aelod poblogaidd o'r staff yno.



CAFFI
COED-Y-BRENIN

"*Lle gwych i hamddena wrth fwynhau coffi, byrbrydau, ciniawau blasus a chacennau bendigedig.*"

Oriau agor :
Llun - Gwener 9 y bore hyd 3 y pnawn

Chwarter canrif o wasanaeth i bobl Bethesda

Newydd ei ailaddurno'n olau a chwaethus

Ystafell Achlysuron / Adnoddau Cynhadledd uwchben y caffi

Dewis da o fyrbrydau, ciniawau a chacennau i'w bwyta wrth y byrddau neu i fynd allan

Cynnig arbennig bob dydd Iau - 'Prif gwrs a phwdin' - £5 y pen

£1 oddi ar bris prydau ar gyfer henoed

Bwydlen ar gyfer plant

Brecwast ar gael drwy'r dydd

Gellir cael bwffe yn y caffi neu wedi'i gludo i leoliad o'ch dewis chi

Gwneir Cacennau Dathlu cain ar y safle

CAFFI COED-Y-BRENIN
2 Victoria Place, Bethesda,
Gwynedd LL57 3AG
ffôn: 01248 602550
e-bost: karena@agoriad.org.uk

*Wrth ein bodd yn gweini arnoch chi!*

www.cafficoed-y-brenin.org.uk

## MAE TŶ TE LLYS LLEWELYN AROGLI'N HYFRYD O'U

# Bara Brith Enwog



1 pwys 2 owns Margarîn (a mymryn i iro'r tuniau)

1 pwys 2 owns siwgr coch meddal

2 bwys ffrwythau cymysg

1 peint llaeth

4 wy wedi'u curo'n ysgafn

2 bwys blawd plaen (wedi'i hidlo)

2 lwy de soda pobi (wedi'i hidlo)

2 lwy de sbeis cymysg (wedi'i hidlo)

(Ar gyfer gwneud tair torth)

## Dull:

Rhowch y braster, y siwgr, y ffrwythau a'r llaeth mewn sosban fawr. Cymysgwch y cyfan a'u berwi. Mudferwch am 5 munud ac yna'i adael i oeri am tua hanner awr.

Pan fydd wedi oeri, ychwanegwch yr wyau a chymysgu'r cyfan. Yna, ychwanegwch y blawd, y soda a'r sbeis wedi'u hidlo, a chymysgu nes bod y cyfan wedi uno.

Irwch 3 tun torth pwys a'u leinio gyda phapur gwrthsaim. Rhannwch y gymysgedd rhwng y 3 tun a'u pobi yn y popty am awr a hanner (150°C / 300°F i bopty ffan, 170°C / 325°C i bopty cyffredin, neu Farc Nwy 3). Gofalwch nad ydy'r wyneb yn lliwio gormod. Os ydyn nhw'n edrych braidd yn dywyll, rhowch haen o ffoil drostynt yn llac. Gadewch iddynt oeri yn y tuniau.

Gallech eu rhewi at eto, neu eu rhoi'n anrhegion - os medrwch adael llonydd iddyn nhw!





agoriadcyf realising your potential gwireddu eich potensial

Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HN
• *Ffôn:* +44 (0)1248 361 392 • *Ffacs:* +44 (0)1248 372 050
• *E-bost:* info@agoriad.org.uk • *Gwefan:* www.agoriad.org.uk
• Comisiwn Elusennau 1010165 • Rhif cofrestru 2700109